


Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

# Academi Arweinyddiaeth Cenedlaethau'r Dyfodol 2024-2025

ADRODDIAD EFFAITH

## GRYMUSO ARWEINWYR IFANC I YSGOGI NEWID HIRDYMOR AR DRAWS CYMRU

# Gwybodaeth am yr Academi

Academi Arweinyddiaeth Cenedlaethau'r Dyfodol
Future Generations Leadership Academy

Mae Academi Arweinyddiaeth Cenedlaethau'r Dyfodol yn bodoli i rymuso pobl ifanc yng Nghymru i ddod yn arweinwyr sy'n canolbwyntio ar y dyfodol ac sy'n cael eu harwain gan werthoedd, trwy raglen datblygu arweinyddiaeth unigryw wedi'i seilio ar **Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).**

Gwelodd Academi 2024-2025 36 o arweinwyr ifanc yn ymuno â'r rhaglen flaengar hon, sy'n cynnwys sesiynau ar-lein ac wyneb yn wyneb, prosiectau ymarferol, rhwydweithio rhwng cyfoedion, a chyflwyniad dwyieithog i gefnogi arweinwyr sy'n dod i'r amlwg o bob sector a chymuned.

"Nid yw erioed wedi bod yn bwysicach i ddatblygu arweinwyr yfory fel ysgogwyr cenedlaethau'r dyfodol. Rwyf wedi galw am newid trawsnewidiol ar frys, ac mae ein pobl ifanc yn hanfodol ar gyfer gwireddu'r newid hwnnw."

**Derek Walker**
**Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru**

Mae'r Academi yn darparu 70 awr o hyfforddiant dwyieithog, hybrid o fis Medi i fis Mawrth bob blwyddyn. Mae cyfranogwyr yn cymryd rhan mewn dysgu ar-lein, digwyddiadau preswyl, a phrosiectau bywyd go iawn sydd wedi'u cynllunio i greu newid o fewn eu sefydliadau a'u cymunedau.

*" Diolch yn fawr am yr holl gyfleoedd ac arweiniad rydych chi wedi'u rhoi i ni dros yr ychydig fisoedd diwethaf, mae wedi bod mor werthfawr ac wedi rhoi cyfle i mi archwilio cymaint o syniadau newydd yn fy ngweithle"*

Mae effaith y rhaglen wedi'i werthuso drwy ddefnyddio ymagwedd dull-cymysg cadarn, gan gynnwys arolygon cyn ac ar ôl y rhaglen, adborth ar ôl sesiynau, grwpiau ffocws, sgyrsiau 1:1, a digwyddiad graddio i gloi. Mae'r data'n dangos **cynnydd cryf ym mhob maes drwyddi draw**, yn enwedig o ran deall Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, gweithredu'r pum dull o weithio, a chryfhau sgiliau arweinyddiaeth.



*Data wedi'i adolygu gan, ac adroddiad wedi'i gynhyrchu mewn partneriaeth â*


Leaderful ACTION

# Gwybodaeth am y Garfan

Academi Arweinyddiaeth Cenedlaethau'r Dyfodol
Future Generations Leadership Academy

Mae cynhwysiant yn parhau i fod yn nodwedd ganolog o ddyluniad a chyflwyniad yr Academi.

Roedd y garfan yn bennaf yn fenywod (72%), gyda 25% yn uniaethu fel gwrywod a 3% fel rhai anneuaidd. Roedd y 36 cyfranogydd yn adlewyrchu ystod eang o brofiadau bywyd.






## Nodau Cyfranogwyr

Ar ddechrau'r rhaglen, gofynnwyd i gyfranogwyr rannu eu disgwyliadau am yr hyn yr oeddent yn gobeithio ei ennill o'u hamser gydag Academi Arweinyddiaeth Cenedlaethau'r Dyfodol. Datgelodd eu hymatebion awydd cryf am gysylltiad arwyddocaol, twf personol ac effaith ymarferol. Roedd dyhead clir hefyd i greu effaith mesuradwy o fewn sefydliadau ar ôl i'r rhaglen ddod i ben.

Datgelodd yr arolwg cyn y rhaglen bod cyfranogwyr wedi ymuno â'r Academi gyda lefelau cymharol isel o hyder a gwybodaeth am Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'i nodau cysylltiedig. **Ar gyfartaledd 2.68 allan o 5 oedd y sgoriau hunanasesiad ar draws pob maes**, sy'n dangos bod y rhan fwyaf o gyfranogwyr yn teimlo'n ansicr am nodweddion allweddol megis diffinio'r saith nod llesiant, cael mynediad i wybodaeth am bolisi perthnasol, a gweithredu arfer da.

Gofynnwyd i gyfranogwyr hefyd raddio cyfres o sgiliau, yn seiliedig ar ba mor bwysig yr oeddent, yn eu barn hwy, ar gyfer arweinyddiaeth dda.

I lawer y sgiliau a ddaeth i'r brig oedd **cynnal dadl iach, rhoi a derbyn adborth** a **herio ffyrdd traddodiadol o weithio** o fewn fy ngweithle neu gymuned, yn ogystal â gwneud **penderfyniadau anodd a chynnal deialog gyda phobl o wahanol gefndiroedd.**


# Yr Effaith

Academi Arweinyddiaeth Cenedlaethau'r Dyfodol
Future Generations Leadership Academy

> **"Roeddwn i WRTH FY MODD gyda fy mhrofiad yn yr Academi Arweinyddiaeth Cenedlaethau'r Dyfodol. Rwy'n teimlo fel person newydd. Rwy'n teimlo'n llawer mwy brwdfrydig ac wedi ennill y grym i wneud effaith, ac mae'r cysylltiadau a'r bobl rwyf wedi cyfarfod â nhw ar y cwrs, a thrwyddo, wedi fy ngalluogi i ddefnyddio fy syniadau bach i wneud effaith."**

Gan ddefnyddio adborth o sesiynau ac o'r rhaglen yn gyffredinol, gallwn weld bod cynnydd sylweddol wedi bod yn nealltwriaeth y cyfranogwyr o nodweddion allweddol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol dros gyfnod y rhaglen.

Mae sgoriau ar gyfer pob un o'r 7 Nod Llesiant yn dangos cynnydd trawiadol o 44% mewn hyder o amgylch y nodau yn gyffredinol - yn cynyddu o gyfartaledd o 2.34 allan o 5 cyn y rhaglen i 4.53 ar ei hôl. Y cynnydd mwyaf nodedig oedd o fewn Nod 2: Cymru Gydnerth – adroddwyd cynnydd o 49% mewn hyder a dealltwriaeth.




Ar draws pob un o'r chwe maes dealltwriaeth a fesurwyd—o wybod sut mae'r Ddeddf yn gweithio'n ymarferol i'w hesbonio'n hyderus i eraill—nododd cyfranogwyr welliant sylweddol mewn gwybodaeth a hyder. Y cynnydd mwyaf nodedig oedd cynnydd o 51% yn y dasg o wybod sut i gyrchu gwybodaeth berthnasol am bolisi.




Wrth edrych ar lefelau hyder mewn nodau penodol, mae'r canlyniadau'n dangos bod yr Academi nid yn unig wedi cynyddu hyder yn gyffredinol ond hefyd wedi helpu i gydraddoli dealltwriaeth ar draws pob un o'r saith nod—gan leihau'r amrywiad mewn gwybodaeth sylfaenol a sicrhau bod pob cyfranogydd, waeth beth fo'u man cychwyn, wedi gorffen y rhaglen gyda dealltwriaeth gadarn a chytbwys o weledigaeth y Ddeddf ar gyfer Cymru.

> **"Roeddwn i'n meddwl bod y cwrs yn anhygoel, mae'n wych bod y cyfleoedd hyn ar gael i ieuenctid Cymru, gan eu bod nhw'n newid bywydau, gan ddarparu'r rhwydweithiau a'r cymunedau sydd eu hangen i helpu pobl i ffynnu."**

# Yr Effaith

Academi Arweinyddiaeth Cenedlaethau'r Dyfodol
Future Generations Leadership Academy





**Hyder yn y Pum Dull o Weithio**

Pan ofynnwyd iddynt 'Pa mor hyderus ydych chi wrth drafod cynnydd a heriau sy'n ymwneud â'r 5 Dull o Weithio', adroddodd y cyfranogwyr gynnydd cyffredinol cryf gyda'r sgôr gyfartalog yn cynyddu o 2.38 i 4.58—gwelliant o 44%.

> ***"Roedd y sesiynau preswyl yn gyfle gwych i ddod i adnabod aelodau'r Academi, ac roedd y gweithdai'n ddiddorol. Roedd y llety ddarparwyd yn wych, heb unrhyw drafferthion yn ystod unrhyw arhosiad. Roedd y cyfarfodydd bob pythefnos yn effeithiol, ac roedd y seremoni raddio wedi'i threfnu'n dda."***

**Hyder mewn Cyflwyno ac Arfer Da**

Dywedodd y cyfranogwyr ei bod wedi ennill hyder cryfach ar draws pob mesur cyflwyno ac arfer da. Roedd y gwelliannau allweddol yn cynnwys cynnydd o 46% mewn gwerthfawrogi profiadau amrywiol a chynnydd o 45% mewn deall eu pŵer nhw eu hunain i wneud newid. Pwysig nodi bod sgoriau ar ôl y rhaglen ar gyfer deall breintiau a gweithio gyda thimau amrywiol yn agosáu at y sgôr uchaf o 5 (4.92 a 4.84 yn y drefn honno). Mae hyn yn dangos bod y rhaglen nid yn unig wedi meithrin gwybodaeth ond hefyd wedi dyfnhau hunanymwybyddiaeth a pharodrwydd i arwain.




# Yr Effaith

Academi Arweinyddiaeth Cenedlaethau'r Dyfodol
Future Generations Leadership Academy

**Cynhwysiant ac Effeithiolrwydd**

Gwerthuswyd **cynhwysiant** ac **effeithiolrwydd dysgu** pob sesiwn hefyd. Ar draws y rhaglen, roedd y sgôr cynhwysiant cyfartalog yn 4.65 allan o 5, gan ddangos bod cyfranogwyr wedi profi amgylchedd dysgu croesawgar, hygyrch a chefnogol yn gyson. Graddiwyd effeithiolrwydd dysgu ar gyfartaledd o 4.28 allan o 5, gan ddangos bod y sesiynau wedi llwyddo i adeiladu gwybodaeth a sgiliau arweinyddiaeth mewn ffordd a oedd yn ddymunol, yn berthnasol ac yn ymarferol i gyfranogwyr o ystod eang o gefndiroedd.






Canmolodd llawer o gyfranogwyr yr Academi am ddarparu **amgylchedd croesawgar a chefnogol**, gan eu helpu i gynyddu eu hyder, **a dyfnhau eu dealltwriaeth o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol."**

Roedd y **sesiynau preswyl** yn uchafbwynt i lawer, a gwerthfawrogwyd effaith clywed lleisiau amrywiol, yn enwedig rai arweinwyr cymunedol a chyn-fyfyrwyr.

Roedd y cyfranogwyr hefyd yn gwerthfawrogi amlygrwydd **y Gymraeg**, a chyfathrebu clir gan hwyluswyr.

**Adborth Cyffredinol**

Roedd myfyrdodau'r arolwg yn dilyn y rhaglen yn hynod gadarnhaol, gyda llawer o gyfranogwyr yn disgrifio'r profiad fel un a newidiodd eu bywyd, a wnaeth yn eu grymuso, ac a oedd yn werthfawr yn broffesiynol. Rhannodd un cyfranogydd, **"Roeddwn i WRTH FY MODD gyda fy mhrofiad yn yr Academi Arweinyddiaeth Cenedlaethau'r Dyfodol. Rwy'n teimlo fel person newydd. Rwy'n teimlo'n llawer mwy brwdfrydig ac wedi ennill y grym i wneud gwahaniaeth."**

Tynnodd eraill sylw at y cydbwysedd rhwng sesiynau wyneb yn wyneb ac ar-lein, cynnwys diddorol, a chryfder y cysylltiadau a ffurfiwyd: **"Cymysgedd gwych o siaradwyr a phynciau – bob amser yn pryfocio'r meddwl ac yn fy nghadw ar flaenau fy nhraed!"**

> "Diolch yn fawr iawn i Korina, Rebecca a phawb a ymgyfrannodd yn y dasg o lunio rhaglen mor wych! Mae wedi bod yn brofiad craff ac ysbrydoledig iawn i fod yn rhan ohono, ac mae wedi bod yn wych cwrdd â chymaint o bobl anhygoel ar hyd y ffordd. Diolch yn fawr iawn."